

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangernyw nos Fercher Medi 26ain 2018 am 7.30pm yng Nghanolfan Gwytherin.

Croeso ac ymddiheriadau

1.1 Croesawyd pawb gan Einir.

1.2 Presennol: Diane (DR), Emlyn (REW), Clwyd(CR), Gwynfor(GD), Ann(AV), Elen(EHE)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild

1.4 Absennol: Gwyn, Gwydion, Gerallt

1.5 Cytunodd AV i gofnodi'r cofnodion yn absenoldeb Clerc

2.GD yn datgan cysylltiad ac eitem 6.2 ar yr agenda.

3.Cofnodion cyfarfod Awst 1af, pasiwyd eu bod yn gywir. Cynigwyd gan REW ac eilwyd gan GD.

Cofnodion Awst 15fed Pasiwyd eu bod yn gywir. Cynigwyd gan REW ac eilwyd gan CR.

Materion yn codi.

5.1 Nid yw EW am ohebu efo'r teulu.

4.Presenoldeb Cyngorwyr – rydym yn cofnodi absenoldeb Cyngorwyr yn y cofnodion os nad ydynt wedi ymddiheuro o flaen llaw.

5.Ceisiadau Cynllunio

4.1 Rhif 0/45463 Mr Daniel Hussey, Cwm Canol, Gwytherin. Codi adeilad amaethyddol (yn rhannol ôl-weithredol). Pasiwyd ein bod yn gwrthwynebu sied mor fawr ar ychydig o dir amaethyddol.

4.2 Rhif 0/45465 Mr Emyr Owen, Bodrach, Carmel, Llanrwst. Creu trac fferm mewnol i beiriannau fferm a da byw (caniatad ymlaen llaw). Dim gwrthwynebiad

4.3 Rhif 0/45521 Mr D. Flynn, Yr Hen Hydd, Llangernyw. Estyniad ac addasiadau i ffurfio mynediad allanol newydd i'r llety. Dim gwrthwynebiad.

4.4 Rhif 0/44970 Mr a Mrs T.Davies, tir yn Pen y Gloddfa ac Esgair Eithin.

Penderfyniad apêl. Dim gwrthwynebiad. Roedd Mrs Non Davies wedi cysylltu i ddiolch i'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth.

6.Blychau Ffôn:

6.1 Llangernyw – EW am sgwennu i Sioned Green i ofyn os ydy'r ysgol eisiau y blwch ffôn.

6.2 Pandy Tudur – Maent wedi cael pwyllgor gyda Thomas Hughes i drafod i gael diffiblydd i'w roi ynddo. Mae'n bwysig i beidio troi y trydan i ffwrdd, rhaid sgwennu at BT i'w adael ymlaen. Rhaid anfon llythyr i ofyn i Bwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur os ydynt am ei gymeryd drosodd fel rhôdd. Ei roi ar agenda mis Hydref.

7. Diweddarau rhestr dyletwyddau Cyngorwyr

Mae EW am ei yrru ar e bost i bawb. Ei roi ar agenda mis Hydref.

8.Materion ariannol.

8.1 Mandad banc - mae yn rhaid cychwyn o'r dechrau eto. EW i ofalu

8.2 Presept - mae'r ohebiaeth yn mynd yn electronic, rhaid edrych arno yn fwy manwl ym mis Hydref.

9.Swydd y Clerc

9.1 Opsiynau staffio. Mae'n syniad y busem yn medru hysbysebu am swydd Clerc ar y cyd gydag Eglwysbach. Efallai y buasem yn medru cael rhywun i sgwennu'r cofnodion a'r agenda i ddechrau.

9.2 EW i siarad efo Iona ynglyn ac ôl daliad Elwen.

10.Adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Sir, Garffild LL.Lewis. EW am ei anfon ar e bost i bawb a'i roi gyda'r cofnodion. Un mater sydd wedi ei gofnodi yw Cartref y Ficerdy, mae G.LL.L wedi sgwennu llythyr atynt i ofyn beth yw'r sefyllfa.

11.Cyfarfod Rhanbarthol Fforwm Cyngorau Cymuned a Thref

Aeth EW i'r cyfarfod. Roedd yn ddiddorol a buddiol gwranddo ar y clercod a'r gwaith maent yn ei wneud. Roedd rhai yn teimlo nad oeddynt yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn cael mwy o waith i'w wneud. Mi wnaiff Tina Moorcroft ddod atom i drafod yr audit a mynd drwy'r cyfrifon efo ni. Maent yn chwilio am bethau gwahanol bob blwyddyn. Roedd DR yn dweud y bydd yn rhaid iddi ffonio Louise yn y bore a dweud os nad yw pethau'n ddigonol y byddwn yn eu trosglwyddo i gyfrifydd.Mae ein diolch a'n dyled i DR am yr holl waith mae wedi ei wneud ar ein rhan.

12.Biliau

Torri gwellt – D.Evans £400

Canolfan Bro Cernyw – £20

P.R.Signs - £19.20 am arwydd ar giât mynwent Gwytherin.

Rhôdd i Gwenda Cooper am edrych dros y cyfrifon a'u cael yn gywir. £50

13.Materion lleol.

13.1 Bagiau halen – pasiwyd nad ydym yn eu derbyn.

13.2 AV wedi cael yr arwydd gan P.R.Signs

13.3 Pasiwyd nad ydym am gael Cylchlythyr ar hyn o bryd oherwydd fod y cofnodion a gohebiaeth ar y wê.

Emlyn – Mae pont Rhyd Lechog wedi ei difrodi, mae Conwy wedi cael gwybod am hyn. Pont arall ar waelod allt Foel Cathau angen sylw.

Mae trigolion Gwytherin yn aros am gael troi y cyflenwad BT ymlaen gan fod y gwaith wedi cael ei wneud.

Mae clawdd Hendra House yn ymestyn llathen i'r ffordd. REW am ofalu gadael i Gonwy wybod.

Mae REW wedi cael pris gan D.Evans i dorri ochr mynwent Gwytherin sef £150. Pasiwyd ein bod yn ei dderbyn.

Diane – Mae'r gwrych o Bethabara i'r bont fach angen ei dorri gan fod mieri yn tyfu drosodd. Ffordd Glan Collen yn pontio dros y ffordd â'r Cwm. Tŷ yng Nglan Collen

efo llygod mawr oddi amgylch iddo. Baw cŵn yng Nglan Collen – cwyn fod y cŵn yn cael eu gadael allan cyn i'r perchnogion fynd i'w gwelau.

Gwynfor – mae gwrych ochr y Graig, Llangernyw yn tyfu i'r lôn ac yn ei gwneud yn anodd i weld wrth mynedfa i'r lôn fawr.

Ann – Tybiau blodau, gofyn i'r Clwb Garddio a ydynt yn fodlon eu llenwi gyda bwlbiau a blodau ym mis Hydref. Gofyn i Mr R. Roberts a fedr roi bar i ddal drws y bwrdd hysbysebu ger y safle bws dros y ffordd â Chapel y Cwm. Mae golau ar un ochr y ffordd drwy'r pentref wedi diffodd felly mae Cyngor Conwy wedi trefnu eu bod yn cael eu cysylltu o un ochr i'r llall dros dro a mynd â'r weiren drwy'r Ardd Goffa.

Cyfarfod nesaf Hydref 24ain yng Nghanolfan Bro Cernyw.

Cyfarfod ychwanegol ar ddiwedd cyfarfod Cyngor Cymuned Llangernyw nos Fercher Medi 26ain.

Presennol: EW, REW, DR, GD, CR, AV, EHE

Fe wnaeth EHE ddatgan diddordeb yn 1.1 a GD ddatgan diddordeb efo 1.2

Fe wnaeth EHE adael y cyfarfod cyn i ni drafod y ceisiadau.

1. Cronfa Bro Cernyw – daeth 2 gais i law. Pasiwyd ein bod yn cyfrannu fel a ganlyn:-

1.1 Côt Bro Cernyw - £1,500

1.2 Pwyllgor Cymdeithasol Pandy Tudur i gael diffiblydd £1,400

Eitemau ar gyfer agenda mis Hydref

1. Blychau ffôn Llangernyw a Phandy Tudur.

2. Rhestr dyletswyddau Cyngorwyr.

3. Presept

4. Rheolau Mynwetydd Bro Cernyw